

Strategaeth Gwarchod Adar Môr Cymru – Argymhellion a Chasgliadau.

	Dileu ysglyfaethwyr mamaliaid tir goresgynnol a bioddiogelwch ynysoedd
1.1	Dileu llygod mawr brown oddi ar ynysoedd priodol Cymru: Cynnal arolygon ar ynysoedd er mwyn nodi safleoedd sydd neu a allai fod yn gynefinoedd bridio addas ar gyfer adar môr a chanfod presenoldeb mamaliaid goresgynnol (llygod mawr, llygod, mincod). Defnyddio gwybodaeth o raglen barhaus CNC ar addasrwydd ynysoedd, statws gwarchodedig, perchnogaeth a chyfyngiadau eraill i flaenoriaethu camau dileu. Cadarnhau bod llygod mawr wedi'u dileu oddi ar Ynys Seiriol yn dilyn y rhaglen ddwy flynedd drwy fonitro parhaus.
1.2	Rhoi camau bioddiogelwch ar waith ar ynysoedd ynghyd â'r gallu i ymateb yn gyflym: Cynnal a sicrhau cyllid hirdymor ar gyfer mesurau bioddiogelwch a sefydlwyd o dan y fenter Bioddiogelwch am OES, gan gynnwys cynlluniau rheoli, canolfannau ymlediad a rhwydweithiau gwirfoddolwyr. Cynnal swyddi a ariennir gan Lywodraeth Cymru ym meysydd atal, canfod yn gynnar ac ymateb yn gyflym ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac ynysoedd â chytrefi posibl yn y dyfodol.
1.3	Asesu presenoldeb, effeithiau a dichonoldeb dileu ar bob ynys yn y môr: Cwblhau asesiadau o ynysoedd CNC a gwerthuso dichonoldeb dileu lle mae presenoldeb mamaliaid goresgynnol wedi'i gadarnhau, gan ystyried dynodiad safleoedd gwarchodedig, perchnogaeth a chyfyngiadau logistaidd.
	Cynyddu mesurau rheoli ar safleoedd er mwyn lleihau aflonyddwch ac ysglyfaethu
2.1	Cynyddu nifer y staff ar safleoedd (wardeniaid a cheidwaid) Ehangu capasiti wardeniaid a cheidwaid er mwyn lleihau aflonyddwch gan weithgareddau hamdden, atal ysglyfaethwyr, rheoli cynefinoedd, gwneud gwaith monitro ac ymgysylltu â'r cyhoedd.
2.2	Gosod ffensys amddiffynnol lle bo hynny'n briodol Codi ffensys ar safleoedd nythu bregus môr-wenoliaid ac adar sy'n nythu ar y ddaear er mwyn lleihau mynediad gan ysglyfaethwyr brodorol ac estron a chyfyngu ar aflonyddwch gan ymwelwyr a chŵn.
2.3	Rhoi camau rheoli ysglyfaethwyr ar waith lle bo angen Rhaid i unrhyw fesurau rheoli sy'n lladd ysglyfaethwyr ddigwydd o dan drwyddedau priodol a chan bersonél neu gontractwyr hyfforddedig. Ni ddylid lladd ysglyfaethwyr oni bai ei bod yn amlwg bod mesurau eraill nad ydynt yn eu lladd yn annigonol. Defnyddio mesurau atal nad ydynt yn lladd ysglyfaethwyr lle bo hynny'n effeithiol, gan gynnwys laserau, galwadau larwm a bwydo dargyfeiriol.

2.4	Darparu addysg ac ymgysylltu â rhanddeiliaid Defnyddio wardeiniaid a rhaglenni allgymorth i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effeithiau aflonyddwch, darparu cyfleusterau dehongli ar safleoedd ac ymgysylltu ag ysgolion a chymunedau.
2.5	Defnyddio dulliau rheoleiddio a gorfodi Cyflwyno a gorfodi is-ddeddfau neu fesurau rheoleiddio eraill lle bo angen er mwyn lleihau aflonyddwch ar gytrefi adar môr yn ystod y tymor bridio.
2.6	Parthu gweithgareddau pobl Dyrannu defnyddiau hamdden (e.e. mynd â chŵn am dro) mewn ardaloedd ymhell o safleoedd sensitif ar gyfer bridio, clwydo a bwrw'r gaeaf er mwyn lleihau pwysau aflonyddwch.
	Lleihau ymddangosiad, lledaeniad ac effeithiau pathogenau a pharasitiaid
3.1	Cryfhau bioddiogelwch mewn cytrefi Cynyddu mesurau bioddiogelwch cytrefi er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo pathogenau, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag achosion diweddar o'r fflw adar, ar ôl asesu effeithiolrwydd tebygol.
3.2	Ymchwilio i effeithiau cael gwared ar garcasau fel mesur lliniaru Ymchwilio i effeithiau cael gwared ar adar heintiedig sydd wedi marw neu sydd yn marw ar oroesiad pathogenau a marwolaethau ar draws rhywogaethau a sefyllfaoedd er mwyn nodi effeithiolrwydd.
3.3	Ymchwilio i ymyriadau clefydau wedi'u targedu Archwilio strategaethau brechu ar gyfer adar domestig ac adar gwyllt, ac ystyried mesurau oddi ar y safle (magu mewn caethiwed, cadw wyau) ar gyfer rhywogaethau sy'n agored iawn i niwed lle bo hynny'n briodol.
3.4	Hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth am effeithiolrwydd mesurau lliniaru Hyrwyddo'r broses o rannu tystiolaeth ac arferion gorau yn amserol rhwng rhanddeiliaid a phartneriaid rhyngwladol er mwyn llywio dulliau lliniaru.
3.5	Gwella'r broses o reoli pathogenau mewn adar caeth a lleihau rhyngweithiadau Cryfhau bioddiogelwch dofednod ac adar caeth a gwerthuso'r gwaith o frechu heidiau er mwyn lleihau'r risg o ymlediad i adar môr gwyllt.
3.6	Cynyddu gwytnwch poblogaethau er mwyn diogelu rhag effeithiau clefydau Sefydlu neu adfer cytrefi ychwanegol er mwyn lleihau crynodiad poblogaethau a sicrhau eu bod yn llai bregus ar safleoedd unigol.
	Gwarchod, cadw ac adfer cynefinoedd morol adar môr
4.1	Datblygu Strategaethau Safleoedd Gwarchodedig ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig sydd â nodweddion adar môr Nodi'r ddeddfwriaeth berthnasol
4.2	Sicrhau bod Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol ar gyfer adar môr yn cael eu rheoli'n effeithiol Integreiddio Strategaeth Gwarchod Adar Môr Cymru â chynlluniau morol (er enghraifft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru) a chynnal systemau rheoli allweddol fel Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd.

4.3	Adolygu digonolrwydd ecolegol rhwydwaith yr Ardal Forol Warchodedig ar gyfer adar môr Parhau i gynnal asesiadau ar y cyd o ddigonolrwydd AGA morol a gweithredu ar unrhyw fylchau sy'n cael eu nodi.
4.4	Hyrwyddo dulliau rheoli morol ehangach sy'n seiliedig ar ecosystemau Cryfhau mesurau sy'n cefnogi Statws Amgylcheddol Da ac yn helpu i weithredu Strategaethau Morol y DU fel sylfaen i effeithiolrwydd Ardaloedd Morol Gwarchodedig a digonolrwydd y rhwydwaith AGA.
	Cadwraeth, Adfer a Chreu Cynefinoedd Bridio Adar Môr
5.1	Cadwraeth cynefinoedd bridio presennol Cadw a gwella cynefinoedd bridio adar môr presennol ar ynysoedd isel, traethau, ynysoedd adar môr anghysbell a chytrefi clogwyni serth. Sicrhau bod safleoedd yn cael eu gwarchod yn statudol, bod gwasanaeth wardeniaid effeithiol ar waith, bod cynefinoedd yn cael eu rheoli'n weithredol a bod gwaith monitro systematig yn cael ei wneud er mwyn cynhyrchu cynifer o gywion â phosibl a helpu i sicrhau bod oedolion yn goroesi trwy leihau aflonyddwch ac ysglyfaethu.
5.2	Adfer cynefinoedd bridio presennol Asesu addasrwydd ynysoedd ac ardaloedd isel ar gyfer adfer safleoedd nythu adar môr trwy adolygu cofnodion bridio hanesyddol ac amodau presennol safleoedd. Os yw'r asesiadau yn nodi bod y safleoedd yn addas, rhoi mesurau rheoli cynefinoedd ar waith (rheoli llystyfiant, rheoli ysglyfaethwyr a lleihau aflonyddwch) ac ystyried dulliau denu gweithredol fel chwarae recordiadau ar dâp, adar denu a recordiadau hudo er mwyn annog adar i ddychwelyd. Defnyddio allbynnau prosiect addasrwydd ynysoedd CNC er mwyn blaenoriaethu cyfleoedd adfer.
5.3	Creu cynefin nythu arfordir meddal newydd Archwilio cyfleoedd i greu neu adfer cynefinoedd arfordir meddal sy'n addas ar gyfer adar môr sy'n nythu ar y ddaear, er enghraifft lle mae adlinio arfordirol neu gilio a reolir yn darparu lle i ffurfio cynefinoedd. Datblygu cynlluniau prosiect sy'n efelychu enghreifftiau llwyddiannus o Loegr lle bo hynny'n briodol.
5.4	Creu rafftiaau ac ynysoedd ar gyfer safleoedd mewndirol a chysgodol Hyrwyddo'r defnydd o rafftiaau nythu ac ynysoedd artiffisial mewn lleoliadau arfordirol mewndirol a chysgodol lle mae môr-wenoliaid cyffredin a rhywogaethau eraill wedi nythu yn y gorffennol neu lle y gallent ymsefydlu. Cyfuno'r defnydd o rafftiaau ag adar denu a recordiadau hudo er mwyn annog adar i nythu.
5.5	Defnyddio adeiladwaith ar y môr ar gyfer rhywogaethau sy'n nythu ar glogwyni Asesu potensial adeiladweithiau ar y môr sydd wedi'u datgomisiynu neu eu haddasu at ddibenion gwahanol er mwyn darparu cynefin nythu addas ar gyfer rhywogaethau sy'n nythu ar glogwyni, fel yr wylan goesddu. Mewn achosion priodol y mae modd eu cyfiawnhau yn ecolegol, gellir ystyried gadael neu addasu adeiladweithiau yn lle maen nhw'n union, er mwyn gwella cynefinoedd bridio, ac ar yr un pryd gydymffurfio â gofynion diogelwch a rheoleiddio.


5.6	Integreiddio strategol o anghenion cynefinoedd bridio adar môr Prif ffrydio gofynion cynefinoedd bridio adar môr ym mhob cynllun a rhaglen berthnasol er mwyn sicrhau cysondeb, cyfatebolrwydd a dulliau rheoli addasol hirdymor. Integreiddio safleoedd blaenoriaeth nad ydynt wedi'u dynodi eto (er enghraifft Ynys Bŷr ac Ynys Badrig) â thargedau cadwraeth ehangach fel 30x30 ac ymwreiddio amcanion adar môr o fewn fframweithiau statudol gan gynnwys Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
	Cynyddu a gwella'r gwaith o fonitro ysglyfaeth adar môr ac iechyd ecosystemau morol yn yr hirdymor
6.1	Cynyddu gwaith monitro ar draws lefelau troffig Ehangu'r gwaith o fonitro elfennau biotig ac anfiotig ar draws lefelau troffig er mwyn canfod newid i ecosystemau ac olrhain rhywogaethau ysglyfaeth adar môr fel clwpeidau a llymriaid.
6.2	Cydlynu strategol ac integreiddio data Cydlynu ymdrechion monitro ac integreiddio setiau data o sawl sefydliad er mwyn cynhyrchu asesiadau cydlynol, rhanbarthol o iechyd ecosystemau morol a'r ysglyfaeth sydd ar gael.
	Ariannu'r gwaith o fonitro cytrefi adar môr allweddol yng Nghymru yn yr hirdymor er mwyn sicrhau darlun cynrychioliadol
7.1	Sicrhau cyllid ar gyfer y Rhaglen Monitro Adar Môr Cynnal a sicrhau cyllid hirdymor ar gyfer y Rhaglen Monitro Adar Môr sy'n cael ei weinyddu gan y BTO er mwyn casglu data cadarn, cynrychioladol a pharhaus ar gynhyrchiant, goroesiad a thoreithrwydd ar ystod o safleoedd a rhywogaethau.
	Gwella Monitro ac Ymchwil er mwyn Llywio Cadwraeth
8.1	Monitro demograffig a deiet hirdymor Cynyddu a gwella monitro parhaus o doreithrwydd, paramedrau demograffig a deiet ar sawl cytref bridio er mwyn llywio penderfyniadau rheoli.
8.2	Gwella cadernid ystadegol gwaith monitro Cryfhau'r cynllun samplu a dyraniad adnoddau er mwyn cynhyrchu data ystadegol gadarn ar gynhyrchiant, goroesiad a thoreithrwydd ar draws lleoliadau a rhywogaethau amrywiol, dan arweiniad adolygiadau SMP diweddar.
8.3	Cefnogi dulliau arloesol o gasglu data Hyrwyddo'r broses o fabwysiadu technoleg newydd ar gyfer casglu data, gan gynnwys dronau, maglau camera a dyfeisiau acwstig anghysbell goddefol.
8.4	Cynyddu a gwella arolygon adar môr ar y môr: Parhau i ariannu a chynnal Arolwg Gwyllanod y Gaeaf (WiNGS) er mwyn gwella dealltwriaeth o doreithrwydd, dosbarthiad a symudiad gwyllanod sy'n bwrw'r gaeaf.

8.5	Cynyddu a gwella'r broses o olrhain adar môr: Cynyddu amllder a chwmpas arolygon adar môr ar y môr trwy ddefnyddio cychod ac awyrennau er mwyn mireinio modelau dosbarthu ar y môr ac asesu rhyngweithiadau â datblygiadau ar y môr. Hyrwyddo defnydd ehangach o ddyfeisiau olrhain ar draws rhywogaethau a chytrefi ac ehangu'r rhwydwaith MOTUS i Fôr Iwerddon er mwyn mapio patrymau defnydd môr.
8.6	Ymchwil a monitro sgil-ddalfeydd Parhau i wneud gwaith ymchwil a monitro er mwyn cadarnhau tystiolaeth bresennol ar lefelau sgil-ddalfeydd yn nyfroedd Cymru ac asesu risgiau o bysgodfeydd ar y glannau a physgodfeydd ar raddfa fach.
8.7	Cymhwyso'r hierarchaeth lliniaru ar gyfer effeithiau datblygiadau Cryfhau'r broses o gymhwyso'r hierarchaeth lliniaru a chynlluniau strategol er mwyn lleihau effeithiau datblygiadau, yn enwedig gwynt ar y môr, trwy barhau i gydweithio â diwydiant, Ystad y Goron a gweinyddiaethau cyfagos.
8.8	Deall effeithiau sbwriel morol Gwneud gwaith monitro systematig o effeithiau sbwriel morol ar adar môr, gan gynnwys sbwriel yn cael ei ymgorffori mewn nythod, yn mynd yn sownd ac yn cael ei amlyncu, gan ddefnyddio dulliau safonedig at ddibenion cymharu.
8.9	Datblygu rhaglen o arolygon rheolaidd ar gyfer adar marw neu mewn trafferth ar draethau Cymru. Sefydlu protocol ar gyfer arolwg o adar marw neu sydd mewn trafferth ar draethau Cymru sy'n cyd-fynd ag ymdrechion arolygon y DU ac Ynysoedd Prydain a chydlynu'r gwaith o gynnal yr arolwg gyda rhanddeiliaid perthnasol a gwledydd cyfagos.

Asesiad o Lefelau Bregusrwydd

Mae'r graddau y mae rhywogaethau adar môr yn fregus oherwydd pwysau amgylcheddol yn cael eu gwerthuso trwy ddull gweithredu integredig sy'n cyfuno asesiadau sensitifrwydd ac asesiadau amlygiad. Mae'r asesiadau hyn yn pennu i ba raddau y mae rhywogaeth yn cael ei heffeithio gan bwysau penodol a'r graddau y mae'n cael ei amlygu i'r pwysau (Ffigur 1).

Ffigur 1: Asesiad o'r graddau y mae rhywogaethau adar môr yn agored i bwysau yng Nghymru.



Unigolion mewn rhywogaeth
Sensitifrwydd at bwysau
Amlygiad i bwysau
Sgôr bregusrwydd

Mae sensitifrwydd yn cael ei asesu trwy werthuso ymwrthedd a gwytnwch rhywogaethau i bwysau penodol. Neilltuir sgôr sensitifrwydd cyffredinol i bob rhywogaeth, sef isel, canolig neu uchel, yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael.

Tabl 1: Matrics sensitifrwydd ar gyfer llunio sgôr sensitifrwydd.

			Ymwrthedd			
			Dim	Isel	Canolig	Uchel
			Gostyngiad difrifol (>50%) yn y boblogaeth leol	Gostyngiad arwyddocaol (>10% i ≤50%) yn y boblogaeth leol	Gostyngiad cymedrol (≤10%) yn y boblogaeth leol	Dim gostyngiad yn y boblogaeth leol
Gwytnwch	Isel	Adferiad llawn y boblogaeth i'r niferoedd cyn yr effaith o fewn >10 mlynedd	Uchel	Uchel	Canolig	Isel
	Canolig	Adferiad llawn o fewn >2 i ≤ 10 mlynedd	Uchel	Canolig	Canolig	Isel
Uchel		Adferiad llawn o fewn 2 flynedd	Uchel	Canolig	Isel	Ddim yn sensitif

Mae asesiadau amlygiad yn archwilio'r gorgyffwrdd gofodol rhwng rhywogaethau a phwysau. Mae sgoriau yn cael eu neilltuo fel rhai isel, canolig neu uchel, yn seiliedig ar

gyfran y boblogaeth sy'n cael ei heffeithio. Mae'r asesiadau hyn yn cael eu llywio gan farn arbenigol ac yn cynnwys lefelau hyder cysylltiedig.

Tabl 2: Sgoriau amlygiad

Sgôr amlygiad	% y boblogaeth sy'n wynebu pwysau
Uchel	>50%
Canolig	>10% - 50%
Isel	>0% - 10%

Mae sgoriau bregusrwydd yn cael eu pennu trwy gyfuno sgoriau sensitifrwydd ac amlygiad. Neilltuir dosbarthiad bregusrwydd ar gyfer pob rhyngweithiad rhywogaeth-pwysau sy'n amrywio o isel i uchel, yn seiliedig ar y matrices yn Nhabl 3. Mae canlyniadau manwl pob asesiad ar gael yn Atodiad 1.

Ystyriwyd blaenoriaethu pwysau sy'n derbyn sgôr Uchel neu Ganolig ar gyfer sensitifrwydd neu amlygiad. Cafodd pwysau sy'n derbyn sgôr Isel yn y naill gategori neu'r llall eu heithrio. Dim ond y rhyngweithiadau a ddosbarthwyd fel Uchel neu Uchel-Gymedrol a gafodd flaenoriaeth yn y pen draw, gan nad oedd unrhyw sgôr Cymedrol wedi'i chofnodi.

Tabl 3. Matrics bregusrwydd ar gyfer cyflawni sgoriau bregusrwydd. Yn seiliedig ar Banks et al. (2024)

		Sgôr sensitifrwydd		
Sgôr amlygiad		uchel	canolig	isel
	uchel	uchel	uchel-cymedrol	cymedrol
	canolig	uchel-cymedrol	cymedrol	cymedrol-isel
	isel	cymedrol	cymedrol-isel	isel

Er mwyn llywio'r broses o flaenoriaethu pwysau, cynigiwyd tri opsiwn methodolegol (gweler Atodiad 2 am fanylion llawn):

- Opsiwn 1: blaenoriaethu pwysau yn seiliedig ar sgoriau bregusrwydd yn unig
- Opsiwn 2: blaenoriaethu pwysau yn seiliedig ar sgoriau bregusrwydd wedi'u pwysoli yn ôl statws rhywogaeth (Cymru)
- Opsiwn 3: blaenoriaethu pwysau yn seiliedig ar sgoriau bregusrwydd a gafwyd gyda hyder uchel yn unig

Roedd Opsiwn 1 yn cymhwyso sgoriau bregusrwydd yn uniongyrchol, gan neilltuo blaenoriaeth yn seiliedig ar sgoriau Uchel neu Uchel-Gymedrol. Roedd Opsiwn 2 yn ymgorffori statws rhywogaeth gan ddefnyddio dosbarthiad Adar o Bryder Cadwraethol Cymru, gan neilltuo pwysau ychwanegol yn seiliedig ar statws Coch, Ambr neu Wyrdd. Roedd Opsiwn 3 yn hidlo canlyniadau er mwyn cynnwys y rhai sydd â sgoriau bregusrwydd sy'n cael eu hategu gan lefelau hyder uchel yn unig.

Ym mhob un o'r tri opsiwn, roedd y pum pwysau uchaf wedi aros yn gyson (Tabl 4). Gwelwyd mân anghysondebau y tu hwnt i'r pump uchaf, ond cafodd y rhain eu hystyried yn ddibwys. Mae sgoriau is ar gyfer pwysau y tu allan i'r pump uchaf yn awgrymu llai o effaith ar boblogaethau adar môr.

Tabl 4: Y 5 pwysau uchaf a aseswyd.

Safle	Enw'r Pwysau
1	Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol
2	Cyflwyno pathogenau microbaidd
3	Aflonyddwch gweledol
4	Gostyngiad yn argaeledd, lefelau neu ansawdd cynefinoedd cynhaliol
5	Cynnydd heb ei reoli mewn rhywogaethau cystadleuol/ysglyfaethus brodorol

Ni fydd pwysau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y pump uchaf yn cael eu hanwybyddu. Rhagwelir y gall camau sy'n targedu pwysau â blaenoriaeth arwain at fanteision anuniongyrchol o safbwynt pwysau eraill oherwydd gorgyffwrdd ecolegol. Yn ogystal, bydd pwysau ychwanegol yn cael eu hystyried trwy ddulliau hyrwyddo ac integreiddio strategol i fframweithiau polisi ehangach, gan sicrhau bod y Strategaeth yn llywio ac yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau ehangach.

Atodiad 1: Sgoriau Amlygiad, Hyder, Sensitifrwydd a Bregusrwydd a gymhwysir i'r gwahanol fathau o bwysau a rhywogaethau adar môr

Enw'r Pwysau	Enw'r Rhywogaeth	Lefel Amlygiad	Gwerth Hyder	Sensitifrwydd	Sgôr Bregusrwydd
Sŵn uwchben y dŵr	Mulfran	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Sŵn uwchben y dŵr	Gwylan goesddu	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Sŵn uwchben y dŵr	Gwylan fechan	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Sŵn uwchben y dŵr	Gwylan y penwaig	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Sŵn uwchben y dŵr	Môr-wennol wridog	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Sŵn uwchben y dŵr	Gwylog ddu	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Sŵn uwchben y dŵr	Trochydd mawr	Isel	Canolig	Canolig	Isel

Sŵn uwchben y dŵr	Trochydd gyddfgoch	Canolig	Canolig	Canolig	Canolig
Rhwyrstr i symudiad rhywogaeth	Hwyaden fwythblu	Isel	Isel	Canolig	Isel
Rhwyrstr i symudiad rhywogaeth	Aderyn drycin y graig	Isel	Isel	Canolig	Isel
Rhwyrstr i symudiad rhywogaeth	Pâl Manaw	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Rhwyrstr i symudiad rhywogaeth	Pedryn drycin	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Rhwyrstr i symudiad rhywogaeth	Hugan	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Rhwyrstr i symudiad rhywogaeth	Mulfran werdd	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Rhwyrstr i symudiad rhywogaeth	Gwylan goesddu	Canolig	Uchel	Canolig	Canolig
Rhwyrstr i symudiad rhywogaeth	Gwylan Môr y Canoldir	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Rhwyrstr i symudiad rhywogaeth	Môr-wennol bigddu	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Rhwyrstr i symudiad rhywogaeth	Môr-wennol gyffredin	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Newidiadau i amlygiad i donnau	Môr-wennol y Gogledd	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Rhwyrstr i symudiad rhywogaeth	Gwylog	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Rhwyrstr i symudiad rhywogaeth	Gwalch y penwaig	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Rhwyrstr i symudiad rhywogaeth	Gwylog ddu	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Rhwyrstr i symudiad rhywogaeth	Trochydd mawr	Isel	Isel	Canolig	Isel
Rhwyrstr i symudiad rhywogaeth	Trochydd gyddfgoch	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Rhwyrstr i symudiad rhywogaeth	Gwylan fechan	Canolig	Isel	Uchel	Uchel/Canolig
Newidiadau mewn solidau crog (gloywder dŵr)	Môr-wennol bigddu	Isel	Isel	Canolig	Isel
Newidiadau mewn solidau crog (gloywder dŵr)	Gwalch y penwaig	Isel	Isel	Canolig	Isel
Newidiadau mewn solidau crog (gloywder dŵr)	Trochydd mawr	Isel	Isel	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Môr-hwyaden ddu	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Hwyaden frongoch	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Aderyn drycin y graig	Canolig	Isel	Canolig	Canolig
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Pâl Manaw	Isel	Isel	Canolig	Isel

Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Aderyn drycin Balearig	Isel	Isel	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Pedryn drycin	Isel	Isel	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Mulfran	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Mulfran werdd	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Gwylan goesddu	Canolig	Canolig	Canolig	Canolig
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Gwylan benddu	canolig	Canolig	Canolig	Canolig
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Gwylan Môr y Canoldir	Canolig	Isel	Canolig	Canolig
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Môr-wennol fach	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Môr-wennol bigddu	Canolig	Isel	Canolig	Canolig
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Môr-wennol gyffredin	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Môr-wennol wridog	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Aflonyddwch gweledol	Môr-wennol y Gogledd	Canolig	Uchel	Uchel	Uchel/Canolig
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Gwalch y penwaig	Isel	Isel	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Gwylog ddu	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Pâl	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Gwylog	Isel	Isel	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Trochydd gyddfgoch	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad O DAN y dŵr â gwrthrychau statig neu symudol nad ydynt i'w cael yn naturiol yn yr amgylchedd morol	Môr-hwyaden ddu	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad O DAN y dŵr â gwrthrychau statig neu symudol nad ydynt i'w cael yn naturiol yn yr amgylchedd morol	Hwyaden frongoch	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad O DAN y dŵr â gwrthrychau statig neu symudol nad ydynt i'w cael yn naturiol yn yr amgylchedd morol	Aderyn drycin Balearig	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad O DAN y dŵr â gwrthrychau statig neu symudol nad ydynt i'w cael yn naturiol yn yr amgylchedd morol	Pedryn drycin	Isel	Uchel	Canolig	Isel

Gwrthdrawiad O DAN y dŵr â gwrthrychau statig neu symudol nad ydynt i'w cael yn naturiol yn yr amgylchedd morol	Gwylan benddu	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad O DAN y dŵr â gwrthrychau statig neu symudol nad ydynt i'w cael yn naturiol yn yr amgylchedd morol	Gwalch y penwaig	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad O DAN y dŵr â gwrthrychau statig neu symudol nad ydynt i'w cael yn naturiol yn yr amgylchedd morol	Gwylog ddu	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad O DAN y dŵr â gwrthrychau statig neu symudol nad ydynt i'w cael yn naturiol yn yr amgylchedd morol	Pâl	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad O DAN y dŵr â gwrthrychau statig neu symudol nad ydynt i'w cael yn naturiol yn yr amgylchedd morol	Trochydd mawr	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Hugan	Isel	Canolig	Uchel	Isel
Gwrthdrawiad O DAN y dŵr â gwrthrychau statig neu symudol nad ydynt i'w cael yn naturiol yn yr amgylchedd morol	Gwylog	Isel	Uchel	Uchel	Isel
Gwrthdrawiad O DAN y dŵr â gwrthrychau statig neu symudol nad ydynt i'w cael yn naturiol yn yr amgylchedd morol	Trochydd gyddfgoch	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Hwyaden fwythblu	Canolig	Canolig	Canolig	Canolig
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Aderyn drycin y graig	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Pedryn drycin	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Pâl Manaw	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Gwylan goesddu	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Gwylan benddu	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Gwylan gefnddu leiaf	Canolig	Canolig	Uchel	Uchel/Canolig
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Gwylan y penwaig	Canolig	Canolig	Uchel	Uchel/Canolig

Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Gwylan gefnddu fawr	Canolig	Isel	Uchel	Uchel/Canolig
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Môr-wennol fach	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Môr-wennol bigddu	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Môr-wennol gyffredin	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Môr-wennol wridog	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad O DAN y dŵr â gwrthrychau statig neu symudol nad ydynt i'w cael yn naturiol yn yr amgylchedd morol	Mulfran	Isel	Isel	Uchel	Isel
Newidiadau mewn solidau crog (gloywder dŵr)	Gwylan fechan	Isel	Isel	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad O DAN y dŵr â gwrthrychau statig neu symudol nad ydynt i'w cael yn naturiol yn yr amgylchedd morol	Mulfran werdd	Isel	Canolig	Uchel	Isel
Cynnydd heb ei reoli mewn rhywogaethau cystadleuol/ysglyfaethus brodorol	Môr-wennol y Gogledd	Canolig	Uchel	Uchel	Uchel/Canolig
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Aderyn drycin Balearig	Isel	Canolig	Uchel	Isel
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Hwyaden frongoch	Canolig	Canolig	Uchel	Uchel/Canolig
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Pâl	Isel	Uchel	Uchel	Isel
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Môr-hwyaden ddu	Isel	Canolig	Uchel	Isel
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Gwylog	Isel	Uchel	Uchel	Isel
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Gwalch y penwaig	Isel	Uchel	Uchel	Isel
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Gwylog ddu	Canolig	Canolig	Canolig	Canolig
Cyflwyno golau	Hwyaden frongoch	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Cyflwyno golau	Aderyn drycin y graig	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Cyflwyno golau	Aderyn drycin Balearig	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Gwrthdrawiad O DAN y dŵr â gwrthrychau statig neu symudol nad ydynt i'w cael yn naturiol yn yr amgylchedd morol	Hugan	Isel	Isel	Uchel	Isel
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Mulfran werdd	Canolig	Canolig	Uchel	Uchel/Canolig

Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Gwylan gefnddu leiaf	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Gwylan y penwaig	Canolig	Canolig	Canolig	Canolig
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Gwylan gefnddu fawr	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Cyflwyno golau	Môr-wennol fach	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Cyflwyno golau	Môr-wennol bigddu	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Cyflwyno golau	Môr-wennol gyffredin	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Cyflwyno golau	Gwylog ddu	Canolig	Uchel	Canolig	Canolig
Cyflwyno golau	Pâl Manaw	Canolig	Uchel	Uchel	Uchel/Canolig
Cyflwyno golau	Pâl	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Hugan	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Rhwyrstr i symudiad rhywogaeth	Môr-hwyaden ddu	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel
Cyflwyno golau	Gwylan y penwaig	Canolig	Uchel	Canolig	Canolig
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Hwyaden fwythblu	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Môr-hwyaden ddu		Uchel	Canolig	
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Hwyaden frongoch	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Aderyn drycin Balearig	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Pâl Manaw	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Cyflwyno golau	Pedryn drycin	Canolig	Canolig	Uchel	Uchel/Canolig
Gwrthdrawiad uwchben y dŵr	Gwylan fechan	Canolig	Isel	Uchel	Uchel/Canolig
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Gwylan Môr y Canoldir	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Môr-wennol fach	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Môr-wennol bigddu	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Môr-wennol gyffredin	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Gwylog	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Gwalch y penwaig	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Pâl	Canolig	Uchel	Canolig	Canolig
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Trochydd mawr	Isel	Uchel	Uchel	Isel
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Trochydd gyddfgoch	Canolig	Uchel	Uchel	Uchel/Canolig
Cyflwyno golau	Hugan	Isel	Canolig	Canolig	Isel

Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Môr-wennol fach	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Gwylog	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Gwalch y penwaig	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Cyflwyno golau	Gwylan gefnddu leiaf	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Aderyn drycin y graig	Isel	Canolig	Uchel	Isel
Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Hwyaden frongoch	Canolig	Isel	Uchel	Uchel/Canolig
Cyflwyno golau	Gwylan gefnddu fawr	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Gwylan benddu	Uchel	Canolig	Uchel	Uchel
Elfennau trawsnewid a halogiad gan organo-fetelau (e.e. TBT)	Môr-wennol y Gogledd	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Gwylan y penwaig	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Gwylan gefnddu leiaf	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Pedryn drycin	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Trochydd mawr	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Sbwriel	Aderyn drycin y graig	Uchel	Uchel	Isel	Isel
Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Pedryn drycin	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel
Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Gwylan gefnddu leiaf	Canolig	Canolig	Uchel	Uchel/Canolig
Sbwriel	Gwylan goesddu	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Hugan	Canolig	Uchel	Uchel	Uchel/Canolig
Sbwriel	Hwyaden fwythblu	Isel	Isel	Canolig	Isel

Sbwriel	Môr-hwyaden ddu	Isel	Isel	Canolig	Isel
Sbwriel	Hwyaden frongoch	Canolig	Isel	Canolig	Canolig
Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Pâl Manaw	canolig	Uchel	Uchel	Uchel/Canolig
Sbwriel	Aderyn drycin Balearig	Isel	Isel	Canolig	Isel
Cyflwyno golau	Mulfran werdd	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Sbwriel	Gwylan benddu	Isel	Isel	Isel	Isel
Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Gwylan Môr y Canoldir	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Gwylan gefnddu fawr	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel
Sbwriel	Môr-wennol fach	Isel	Isel	Canolig	Isel
Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Môr-wennol bigddu	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel
Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Môr-wennol gyffredin	canolig	Uchel	Uchel	Uchel/Canolig
Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Môr-wennol wridog	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel
Tynnu rhywogaethau targed	Môr-wennol y Gogledd	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Sbwriel	Gwylog	Isel	Isel	Canolig	Isel
Sbwriel	Gwalch y penwaig	Isel	Isel	Canolig	Isel
Sbwriel	Gwylog ddu	Isel	Isel	Canolig	Isel
Sbwriel	Pâl	Isel	Isel	Canolig	Isel
Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Trochydd mawr	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Trochydd gyddfgoch	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Gostyngiad yn argaeledd, lefelau neu ansawdd cynefin cynhaliol	Aderyn drycin y graig	Isel			Isel
Gostyngiad yn argaeledd, lefelau neu ansawdd cynefin cynhaliol	Gwylan benddu	Isel	Isel	Uchel	Isel

Cyflwyno pathogenau microbaidd	Mulfran werdd	Canolig	Uchel	Canolig	Canolig
Sbwriel	Pedryn drycin	Uchel	Canolig	Canolig	Uchel/Canolig
Sbwriel	Gwylan gefnddu leiaf	Uchel	Uchel	Isel	Isel
Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Gwylan gefnddu fawr	Canolig	Uchel	Uchel	Uchel/Canolig
Gostyngiad yn argaeledd, lefelau neu ansawdd cynefin cynhaliol	Gwalch y penwaig	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Gostyngiad yn argaeledd, lefelau neu ansawdd cynefin cynhaliol	Pâl	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Sbwriel	Trochydd mawr	Canolig	Isel	Canolig	Canolig
Gostyngiad yn lefelau neu ansawdd y bwyd sydd ar gael wrth i weithgareddau anthropogenig gael gwared ar adnoddau bwyd yn uniongyrchol	Aderyn drycin Balearig	Isel	Canolig	Uchel	Isel
Gostyngiad yn lefelau neu ansawdd y bwyd sydd ar gael wrth i weithgareddau anthropogenig gael gwared ar adnoddau bwyd yn uniongyrchol	Gwylan benddu	Isel	Isel	Uchel	Isel
Gostyngiad yn argaeledd, lefelau neu ansawdd cynefin cynhaliol	Gwylan gefnddu leiaf	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Mulfran	Canolig	Canolig	Uchel	Uchel/Canolig
Sbwriel	Môr-wennol wridog	Isel	Isel	Canolig	Isel
Gostyngiad yn lefelau neu ansawdd y bwyd sydd ar gael wrth i weithgareddau anthropogenig gael gwared ar adnoddau bwyd yn uniongyrchol	Hwyaden fwythblu	Isel	Isel	Canolig	Isel
Gostyngiad yn lefelau neu ansawdd y bwyd sydd ar gael wrth i weithgareddau anthropogenig gael gwared ar adnoddau bwyd yn uniongyrchol	Môr-hwyaden ddu	Isel	Isel	Canolig	Isel

Gostyngiad yn lefelau neu ansawdd y bwyd sydd ar gael wrth i weithgareddau anthropogenig gael gwared ar adnoddau bwyd yn uniongyrchol	Hwyaden frongoch	Isel	Isel	Canolig	Isel
Gostyngiad yn lefelau neu ansawdd y bwyd sydd ar gael wrth i weithgareddau anthropogenig gael gwared ar adnoddau bwyd yn uniongyrchol	Aderyn drycin y graig	Isel	Isel	Canolig	Isel
Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Hugan	Uchel	Uchel	Canolig	Uchel/Canolig
Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Mulfran	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel
Halogiad gan hydrocarbonau a PAH	Gwylan fechan	Isel	Uchel	Uchel	Isel
Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Gwylan y penwaig	Canolig	Canolig	Uchel	Uchel/Canolig
Sbwriel	Gwylan gefnddu fawr	Isel	Isel	Isel	Isel
Gostyngiad yn lefelau neu ansawdd y bwyd sydd ar gael wrth i weithgareddau anthropogenig gael gwared ar adnoddau bwyd yn uniongyrchol	Gwylog	Isel	Isel	Canolig	Isel
Gostyngiad yn lefelau neu ansawdd y bwyd sydd ar gael wrth i weithgareddau anthropogenig gael gwared ar adnoddau bwyd yn uniongyrchol	Gwylog ddu	Isel	Isel	Canolig	Isel
Gostyngiad yn argaeledd, lefelau neu ansawdd cynefin cynhaliol	Trochydd mawr	Isel	Canolig	Canolig	Isel
Sbwriel	Trochydd gyddfgoch	Canolig	Isel	Canolig	Canolig
Tynnu rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed	Hwyaden frongoch	Canolig	Isel	Uchel	Uchel/Canolig
Tynnu rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed	Aderyn drycin y graig	Isel	Canolig	Uchel	Isel

Tynnu rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed	Aderyn drycin Balearig	Isel	Isel	Uchel	Isel
Cyflwyniad neu ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INIS)	Mulfran werdd	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel
Gostyngiad yn argaeledd, lefelau neu ansawdd cynefin cynhaliol	Môr-wennol wridog	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel
Gostyngiad yn lefelau neu ansawdd y bwyd sydd ar gael wrth i weithgareddau anthropogenig gael gwared ar adnoddau bwyd yn uniongyrchol	Gwylan y penwaig	Isel	Isel	Canolig	Isel
Cyflwyno pathogenau microbaidd	Gwylan fechan	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Sbwriel	Hugan	Uchel	Uchel	Isel	Isel
Tynnu rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed	Hwyaden fwythblu	Isel	Isel	Canolig	Isel
Tynnu rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed	Môr-hwyaden ddu	Isel	Isel	Canolig	Isel
Gostyngiad yn argaeledd, lefelau neu ansawdd cynefin cynhaliol	Pedryn drycin	Canolig	Canolig	Canolig	Canolig
Tynnu rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed	Gwylan goesddu	Isel	Isel	Canolig	Isel
Gostyngiad yn lefelau neu ansawdd y bwyd sydd ar gael wrth i weithgareddau anthropogenig gael gwared ar adnoddau bwyd yn uniongyrchol	Gwylan gefnddu leiaf	Isel	Uchel	Uchel	Isel
Gostyngiad yn argaeledd, lefelau neu ansawdd cynefin cynhaliol	Gwylan gefnddu fawr	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Gostyngiad yn argaeledd, lefelau neu ansawdd cynefin cynhaliol	Môr-wennol fach	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel
Sbwriel	Môr-wennol bigddu	Isel	Isel	Canolig	Isel
Sbwriel	Môr-wennol gyffredin	Isel	Isel	Canolig	Isel
Gostyngiad yn lefelau neu ansawdd y bwyd sydd ar gael wrth i weithgareddau anthropogenig gael	Môr-wennol wridog	Canolig	Isel	Uchel	Uchel/Canolig

gwared ar adnoddau bwyd yn uniongyrchol					
Tynnu rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed	Môr-wennol y Gogledd	Isel	Isel	Canolig	Isel
Tynnu rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed	Gwylog	Canolig	Isel	Canolig	Canolig
Tynnu rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed	Gwylog ddu	Canolig	Isel	Canolig	Canolig
Tynnu rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed	Pâl	Canolig	Isel	Canolig	Canolig
Gostyngiad yn lefelau neu ansawdd y bwyd sydd ar gael wrth i weithgareddau anthropogenig gael gwared ar adnoddau bwyd yn uniongyrchol	Trochydd mawr	Isel	Isel	Canolig	Isel
Gostyngiad yn lefelau neu ansawdd y bwyd sydd ar gael wrth i weithgareddau anthropogenig gael gwared ar adnoddau bwyd yn uniongyrchol	Trochydd gyddfgoch	Isel	Isel	Canolig	Isel
Sbwriel	Mulfran	Canolig	Isel	Isel	Isel
Tynnu rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed	Gwylan y penwaig	Isel	Isel	Uchel	Isel
Tynnu rhywogaethau targed	Hwyaden frongoch	Isel	Isel	Uchel	Isel
Tynnu rhywogaethau targed	Hwyaden fwythblu	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Tynnu rhywogaethau targed	Môr-hwyaden ddu	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Tynnu rhywogaethau targed	Aderyn drycin y graig	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Sbwriel	Pâl Manaw	Isel	Isel	Canolig	Isel
